



Urdd

- Teitl y Swydd:** Swyddog Prosiect Chwaraeon Ceredigion
- Math o gontract:** Cytundeb penodol, cyfnod o flwyddyn, llawn amser (35 awr yr wythnos)
- Graddfa:** Graddfa 5: £19,061 (Pwynt 1) - £22,097 (Pwynt 6)
- Lleoliad:** Swyddfa Aberystwyth / Llangrannog (1 diwrnod y wythnos)

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Gary Lewis (Cyfarwyddwr Chwaraeon Cenedlaethol) ar 02920 635686 neu gary@urdd.org.

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 27 Chwefror 2018 am 09:00

Dyddiad Cyfweld – 5 Mawrth 2018 yn Gwersyll yr Urdd Llangrannog

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Swyddog Prosiect Chwaraeon Ceredigion	Lleoliad:	Swyddfa Aberystwyth / Llangrannog (1 diwrnod y wythnos)
Adran:	Chwaraeon	Rheolaeth Llinell:	
Yn adrodd i :	Uwch Swyddog Chwaraeon	Graddfa:	5

Prif bwrpas y swydd:

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Bydd angen i'r Swyddog Prosiect Chwaraeon ddatblygu sesiynau wythnosol, chlybiau y tu allan i oriau dysgu ac ar penwythnosau, a gweithgareddau gwyliau yn yr ardaloedd penodol, gan gynnig cyngor i glybiau ar eu strwythur ac ariannu. Bydd targedau penodol yn cael eu cytuno.
- Rheoli, datblygu ac hyfforddi gwirfoddolwyr sydd yn gweithio yn glybiau chwaraeon yr adran
- Mewn rhai ardaloedd bydd angen cydweithio â chlybiau lleol sydd eisoes yn bodoli er mwyn annog plant a phobl ifanc i fynychu sesiynau wythnosol. Lle nad oes clybiau addas yn bodoli eisoes, bydd angen trefnu clybiau yn enw'r Urdd. Bydd modd hefyd cyflwyno sesiynau chwaraeon i grwpiau sydd eisoes yn cyfarfod yn enw'r Urdd. Bydd targedau penodol yn cael eu cytuno.
- Bydd angen cydweithio gyda swyddogion chwaraeon yr Awdurdodau Unedol, a'r Cydff Llwydraethol i sicrhau fod 'llwybr allan' i'r rheiny sy'n cymryd rhan. Hefyd, mynychu cyfarfodydd gyda phartneriaid pam mae'r angen yn codi.
- Bydd angen i'r swyddog dargedu gweithgaredd yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig oddi fewn i'r ardaloedd uchod, gan ei bod hi'n un o amcanion yr Urdd i gynyddu gweithgaredd yn yr ardaloedd hynny, er mwyn sicrhau cynhwysiad cymdeithasol. Bydd angen gweithio tuag at targedau Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Bydd disgwyl i'r swyddog gyfrannu at lwyddiant gweithgareddau chwaraeon cenedlaethol hefyd, o dan arweiniad yr adran digwyddiadau
- Cydweithio gyda swyddogion chwaraeon yr Urdd ar brosiectau yn ardaloedd gwahanol o Gymru.
- Tiwtor ar cyrsiau hyfforddiant chwaraeon i wirfoddolwyr a prentisiaid
- Casglu ystadegau a gwybodaeth arfer da er mwyn adrodd yn ôl i'r Swyddog Datblygu
- Cydweithio gyda'r cynllun prentisiaeth
- 18 awr cyswllt gyda plant a phobl ifanc yn wythnosol

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Hanfodol

- Cymhwyster yn y maes chwaraeon a hamdden.
- Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu Cymraeg da.
- Rhaid meddu ar gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o fobl.
- Rhaid bod yn hyderus i greu cyfleoedd chwaraeon newydd i bobl ifanc gan adnabod ac

ysgogi gwirfoddolwyr/arweinwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.

- Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru.
- Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char er mwyn cyflawni'r swydd hon.

Dymunol

- Gallu gweithio ar liwt eu hunain ac hefyd cydweithio fel aelod o dim.
- Profiad o weithio yn uniongyrchol gyda plant a phobl ifanc – boed yn gyflogedig neu yn wirfoddol.
- Y gallu i adnabod bylchau mewn darpariaeth a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff/ mudiadau sydd yn addas i dargedau'r swydd.
- Byddai unrhyw brofiad o hyfforddi o fantais
- Byddai profiad o lunio a darparu asesiadau risg yn fanteisiol ag ymwybyddiaeth o brosesau lechyd a Diogelwch.
- Hyfforddiant lechyd a Diogelwch a Chymorth cyntaf – bydd yn cael ei gynnis fel rhan o'r swydd.
- Mynychu cwrs Asesu Risg (Off-Site Safety) – bydd yn cael ei gynnis fel rhan o'r swydd

Nodiadau i ymgeiswyr:

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff)

Teitl y swydd:	Swyddog Prosiect Chwaraeon Ceredigion
Yn atebol i:	Uwch Swyddog Datblygu
Cyflog:	Ar raddfa 5 Strwythur Cyflog yr Urdd £19,061 (Pwynt 1) - £22,097 (Pwynt 6) Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol i'r Swyddog weithio oriau oddi allan i oriau safonol swyddfa yn achlysurol. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn.
Lleoliad:	Swyddfa Aberystwyth / Llangrannog (1 diwrnod y wythnos)
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. Bydd angen neilltuo tri diwrnod y cyfnod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.